**Ffurflen Adrodd ar Gynnydd Grant i Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg 2018- 2019**
***(Blaen-daliadau ac Ôl-daliadau)***

**Enw Sefydliad:** Menter Môn Cyf

**Enw Cyswllt:** **Nia Wyn Thomas**

**Cyfeiriad Llawn y Sefydliad**: Menter Môn Cyf Neuadd y Dref, Sgwâr Bulkeley, LL77 7LR

**Cyfeiriad e-bost**: nia@mentermon.com

**Rhif Ffôn:** 01248 725700

**Swm y Grant £133,060.00**

**Cyfeirnod Grant** GHHDG/18-19/19

**Cyfnod Hawlio:**

| | | |
|---|---|---|
| **Ch1 - Ebrill – Mehefin** | ☒ | **(Ffenestr ar gyfer hawlio cyllid) 2 Gorffennaf – 13 Gorffennaf 2018** |
| **Ch2 - Gorffennaf – Medi** | ☒ | **(Ffenestr ar gyfer hawlio cyllid) 1 Hydref – 12 Hydref 2018** |
| **Ch3 - Hydref – Rhagfyr** | ☐ | **(Ffenestr ar gyfer hawlio cyllid) 1 Ionawr – 14 Ionawr 2019** |
| **Ch4 - Ionawr – Mawrth** | ☐ | **(Ffenestr ar gyfer hawlio cyllid) 1 Ebrill – 12 Ebrill 2019** |

| Thema 1: Cynyddu Nifer y Siaradwyr Cymraeg | | |
|---|---|---|
| **Targedau (ar ffurf CAMPUS)** | **Cynnydd** | **Targed yn rhedeg ar amser Ydy / Na** |
| 8 o wirfoddolwyr newydd yn rhan o rwydwaith y fenter iaith ar gyfer cefnogi ymdrechion cynnal digwyddiadau a hyrwyddo'r Gymraeg erbyn Awst 2018 | **Chwarter 1**<br><br>**Gwirfoddolwyr Wici :**<br><br>1. WiciLlangefni – **Cameron Hughes** a **Cain Williams**, trefnu noson agored i'r gymuned yn Llyfrgell Llangefni.<br>2. WiciAmlwch – **J R Williams** a Cyngh. **Richard Griffiths**, trefnu cyfarfodydd cymunedol WiciAmlwch.<br>3. WiciGwerin – **Arfon Wyn, Catrin Jones, Huw Roberts** a **Steffan Thomas**. Trefnu cyfarfodydd WiciGwerin a chyfrannu'n sylweddol i drwch erthyglau Wici.<br><br>**Gwirfoddolwyr Bocsŵn :**<br>**Teifion Jones ac Oliver Jaques**<br>Gwirfoddoli ar ddyddiau achlysurol dros gyfnod yr Haf, yn benodol gyda chynllun Bocsŵn i farchnata a denu aelodau newydd i Rwydwaith Perfformwyr Ifanc.<br><br>**Gwirfoddolwyr Eraill :**<br>**1.6.2018** – Cyfarfod cychwynnol efo **Charlotte Roberts**, dysgwraig â diddordeb mewn datblygu sgiliau cyfathrebu a chefnogi digwyddiadau celfyddydol. | **Ydy** |

| | | |
|---|---|---|
| | **hwarter 2**<br><br>**4.7.2018** – Cyfarfod cychwynnol gyda **Gwynfor Rowlinson**.<br>Dros gyfnod Chwarter 2, fe gefnogodd Gwynfor ymdrechion y Fenter i gynnal sawl digwyddiad dros yr Ynys. Rôl flaengar yn nhrefniadau Ras yr Iaith, ffair Ysgol Rhyd y Llan gyda Selog, cynorthwyo sesiwn Ymwybyddiaeth Iaith i rieni di-Gymraeg yn Ysgol Rhosneigr a dehongli'r adborth i deilwra'r sesiynau blaenorol, cefnogi gweithgareddau cymunedol ar foreau Sadwrn ym Mhorthaethwy, ychwanegu erthyglau Cymraeg i brosiect WiciMôn, marchnata ar gyfryngau cymdeithasol a chadw cofnodion yn y Fforwm Iaith Sirol.<br><br>**28.7.2018** – **Leisa Gwenllian** a **Lois Postle**, dwy o wirfoddolwyr ifanc yn cefnogi ymdrechion y Fenter yng Ngŵyl Caergybi + ymrwymo i ddigwyddiadau teuluoedd yn Chwarter 4.<br><br>**14.9.2018** - Cyfarfod cychwynnol gydag **Anwen Parry,** cyn brifathrawes mewn Ysgol awyrlu Prydeinig yn yr Almaen. Profiad o weithio gyda phlant a gwragedd yr awyrlu, ac felly'n arwain yn naturiol at gefnogi ymdrechion cymunedol Cymraeg yn Ysgol y Tywyn (Ysgol sy'n lleol i awyrlu Y Fali). | **Ydy** |
| | **Chwarter 3** | |
| | **Chwarter 4** | |
| Hwyluso Fforwm Cymraeg i Deuluoedd a sicrhau gweithrediad effeithiol o gynllun gwaith CAMPUS o gylch gwaith partneriaid er mwyn cyfrannu at amcanion strategaeth Cymraeg 2050. Adnabod meysydd i gydweithio, cynllunio a rhaglennu ac adnabod bylchau drwy gyfarfod 4 gwaith y flwyddyn erbyn | **Chwarter 1**<br>**16.5.2018** - Cynnal cyfarfod **Partneriaeth Cymraeg i Deuluoedd** & adolygu cyflawniad y camau gweithredu.<br><br>**1.5.2018** - Hyfforddiant **Ymwybyddiaeth Iaith** i gymorthyddion **Ysgol Goronwy Owen**, yn dilyn cais drwy'r bartneriaeth.<br><br>**3.5.2018** - Cyflwyniad **Dyfrig Ellis, Uwch-arolygydd Estyn + Cyngor Sir Ynys Môn.** | |

| | | |
|---|---|---|
| Mawrth 2019. | ymchwilio i gyfleoedd strategol ar gyfer y **Bartneriaeth**, i gefnogi ymdrechion y gymuned leol, adnabod disgwyliadau'r gyfundrefn Addysg a'r Siarter Iaith, adnabod cyfleodd i gefnogi'r gymuned ehangach o amgylch yr Ysgolion ac adnabod bylchau yn y ddarpariaeth bresennol.<br><br>Rhannu'r argymhellion gyda'r Bartneriaeth Teuluoedd a Fforwm Iaith Strategol, gan fapio darpariaethau i'r galw hyn.<br><br>**8.5.2018** - Cyfarfod i gynllunio hyfforddi ar y cyd gyda **Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr**. Adnabod heriau wrth drwytho staff â chyswllt gyda rhieni o fanteision dwyieithrwydd. Chwilio am gyfleoedd i gynnig hyfforddiant ar y cyd i staff e.e. ymwelwyr iechyd / therapyddion iaith / bydwragedd.<br><br>**15.5.2018** - Cyfarfod cychwynnol gyda **Swyddog Cymraeg i'r Teulu** (**Dysgu Cymraeg GO**), un o'r Bartneriaeth Cymraeg i Deuluoedd. | |
| | **Chwarter 2**<br><br>**6.7.2018 –** Cyflwyniad ar ddiwrnod **Dathlu Siarter Iaith Môn.**<br>Hyrwyddo'r arfer dda gymunedol gan gynnwys cyfleoedd i gydweithio gyda'r Fenter Iaith, wedi ei dargedu ar gyfer athrawon/penaethiaid. Sawl cyfle wedi codi o'r cyflwyniad hwn.<br><br>**9.7.2018 -** Cyfarfod i rannu arfer dda'r **Bartneriaeth** a thrafod cydweithio ar brosiect **Blasu Cymraeg yn y Gweithle** gyda **Menter Iaith Bangor**. Cytuno i gefnogi myfyrwyr **Grŵp Llandrillo Menai** gyda lleoliadau blasu ym Môn gyda **Mudiad Meithrin** a **Chanolfan Addysg y Bont** (Ysgol Addysg Arbennig) a hefyd ym Mangor mewn Cartref henoed a meithrinfa breifat. (Perthnasol hefyd i'r targed nesaf)<br><br>**11.7.2018** - Cyfarfod i rannu arfer dda a rhannu adnoddau iaith gydag un o ddarparwyr y | |

| | | |
|---|---|---|
| | artneriaeth - adran plant **Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi**.<br><br>**12.9.2018** - **Cyfarfod Partneriaeth Cymraeg i Deuluoedd** - adolygu'r camau gweithredu ac adnabod cyfleoedd pellach.<br>**19.9.18** - Cyfarfod **Penaethiaid Cynradd Caergybi.** Cyfarfod i drafod cefnogaeth gymunedol y Fenter i'r Ysgolion, a thrwy hynny, sicrhau cyfraniad ariannol tuag at gynnal **Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi yng Nghaergybi.**<br><br>**26.9.18 –** Cyhoeddi **Calendr gweithredol o ddigwyddiadau rheolaidd Cymraeg i Deuluoedd** ym Môn, a thrwy hynny, adnabod amlder digwyddiadau ar fore Mercher a'r cyfleodd sydd ar gael i gynnal digwyddiadau ar Ddydd Llun a Gwener. | |
| | **Chwarter 3** | |
| | **Chwarter 4** | |
| Rhannu'r arfer dda uchod â Mentrau Iaith a phartneriaid perthnasol er mwyn cefnogi ymdrechion mewn ardaloedd eraill. | **Chwarter 1**<br>**Datblygiadau yn Chwarter 2** | |
| | **Chwarter 2**<br>**10.7.2018** - Cyflwyniad o fanteision ac effeithiolrwydd trefn Fforwm Iaith Strategol Ynys Môn, gan arwain i ffurfio Partneriaeth Cymraeg i Deuluoedd Môn fel model cynaliadwy ac effeithlon i MIC/mentrau eraill yng nghyfarfod y Prif Swyddogion. Gwahoddiad i Fentrau Iaith ddod i arsylwi.<br><br>**Cynrychiolwyr o Fenter Iaith Fflint a Wrecsam + Cyngor Sir Dinbych wedi mynychu cyfarfod Fforwm Gorffennaf ar sail hyn, ac wedi derbyn y gwaith papur hanfodol (Strategaeth Iaith, Cylch Gorchwyl, Cynlluniau Gweithredu).**<br><br>**12.9.18** - Rhannu dogfennaeth a dulliau gweithredu'r **Bartneriaeth** gyda Rhian Sanson, Tîm Prosiect Blynyddoedd Cynnar / Sylfaen, Rhanbarth y Gogledd (**GwE**) gan gynnig gwahoddiad i fod yn rhan o'r cyfarfodydd a rhannu arfer dda. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **5.5.2018** – Cefnogi Hunaniaith yng Ngwynedd wrth gyflwyno Ymwybyddiaeth Iaith ar sail cyfle cyfartal i bartneriaid **Hunaniaeth** yn ystod cynhadledd **Sgiliaith Grŵp Llandrillo Menai** ym Mhorthmadog. 100 o fyfyrwyr, ac 18 o staff **Grŵp Llandrillo Menai.** | |
| | **Chwarter 3** | |
| | **Chwarter 4** | |
| Cefnogi partneriaid sy'n gweithio i gyflawni Maes 2, Thema 1 gydag adnoddau, cyflwyniadau a sgyrsiau 1:1<br>Nifer – 100 o rieni, 10 ymweliad.<br><br>(Erbyn diwedd Chwarter 2: 8 ymweliad, 128 rhiant) | **Chwarter 1**<br>**12.5.2018 - Meithrinfa Medra** efo Dewin&Doti a Selog - sgyrsiau 1 i 1 gyda theuluoedd (Rhiant/teulu: 39, tadau: 6, Iaith gartref: Cymraeg/Saesneg: 10, Saesneg: 6. Trydar - Argraffiadau: 1508 / Ymwneud: 68 / FB - Cyrraedd: 1700 / Clicio: 449 / Rhannu/Ymateb: 21)<br><br>**6.6.2018 – Ymwybyddiaeth Iaith i deuluoedd Ysgol y Graig**.<br>2 sesiwn. (Rhiant/teulu: 35, Cym/Saes: 8, Saes: 8, Tadau: 4)<br><br>**11.6.2018** - **Ymwybyddiaeth Iaith** a chyflwyno cyfleoedd chwarae Cymraeg - **Cymorthyddion Ysgol Esceifiog, Gaerwen** (13 aelod o staff).<br><br>**11.06.2018 - Ymwybyddiaeth Iaith i ddarpar rieni Ysgol y Tywyn** - Cymuned a ddominyddwyd gan ofynion gweithwyr yr RAF gerllaw ac sydd am y tro cyntaf am fod yn trochi yn y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen.<br><br>Gall hyn olygu colli niferoedd yn yr ysgol felly mae angen paratoi'r gymuned a chyfleu manteision dwyieithrwydd hyd yn oed i blant na fydd yn aros yng Nghymru yn hwy na 2 flynedd (Un o'r cwestiynau a gafwyd oedd beth oedd y pwrpas am ddwy flynedd yn unig ac i'r ysgol gofio fod yr **RAF yn fodlon talu am ysgol breifat** i deuluoedd oedd am newid ysgol i **osgoi'r Gymraeg**. Ymddengys nad yw'r cynnig yma gan yr RAF i dalu am ysgol breifat gynradd yn bodoli unrhyw le arall ym Mhrydain). Pwysleisiwyd hefyd gyfrifoldeb yr ysgol i ddiwallu anghenion cyfle cyfartal y disgyblion lleol sydd dan anfantais o beidio meithrin sgiliau dwyieithog. (Rhiant/teulu: 16, Cym/Saes: 4, Saes:11, Tadau:3.) | |

| | |
|---|---|
| | **21.06.2018 - Ymwybyddiaeth Iaith i ddarpar rieni Rhosneigr** - ardal glan y môr, â chanran uchel o fewnfudwyr di-Gymraeg. (Rhiant/teulu: 6, tadau:1, C/S: 1, S: 4)<br><br>**25.06.2018 - Ymwybyddiaeth Iaith i ddarpar rieni Cemaes** – pentref agosaf bwerdy Wylfa a'r darpar bwerdy Wylfa Newydd, felly sydd wedi gweld niferoedd uchel o fewnfudo.<br>(Rhiant/teulu: 4, S: 3.)<br><br>**27.06.2018 - Ymwybyddiaeth Iaith i ddarpar rieni Ysgol Parc y Bont** Llanddaniel – cymuned sy'n ymdrechu'n dda i gynnal dysgwyr. (Rhiant / teulu: 8, tadau: 1, Cymraeg/Saesneg: 5, Saesneg 2.)<br><br>**28.06.2018 - Ymwybyddiaeth Iaith i ddarpar rieni Ysgol Goronwy Owen,** Benllech - Pentref glan y môr gyda chanran uchel o fewnfudwyr a heb ddarpariaeth Cylch Meithrin ond yn hytrach darpariaeth cyn-ysgol poblogaidd Saesneg yn unig.<br>(Rhiant/teulu: 13, Tadau: 2, Cymraeg/Saesneg: 9, Saes : 3)<br><br>**28.06.2018 - Ymwybyddiaeth Iaith i ddarpar rieni Ysgol Biwmares**, Tref dwristaidd draddodiadol heb amlygu'r Gymraeg. Ysgol dan fygythiad cau felly gall fod bydd y plant yn gwasgaru i ysgolion cyfagos. (Rhiant/teulu: 7, Tadau: 2, Cymraeg/Saesneg: 1, Saesneg 6) |
| | **Chwarter 2**<br><br>**9.11.2018**<br>Ymwybyddiaeth Iaith i ddarpar weithwyr maes gofal ac iechyd - myfyrwyr Grŵp Llandrillo Menai (Myfyrwyr: 44, Staff: 3) |

| | |
|---|---|
| | **hwarter 3** |
| | **Chwarter 4** |

**Thema 1:**
**Pa dystiolaeth ychwanegol sydd gennych o ganlyniad i waith gwerthuso'r gweithgareddau/prosiectau a wnaed gennych e.e. astudiaethau achos, canlyniadau holiaduron ayyb.**
***Os yn cyflwyno tystiolaeth fel atodiadau, nodwch eu teitlau isod).***

| Tystiolaeth | √ | Manylion |
|---|---|---|
| Astudiaethau Achos | | |
| Holiaduron | | |
| Arall<br><br>1. Partneriaeth Teuluoedd<br><br>2. Adborth rhiant o sesiwn ymwybyddiaeth iaith ysgol Benllech.<br><br>**3.** Ymateb Rhian Sanson, Swyddog Prosiect Blynyddoedd | | 1<br>a. Fframwaith gweithredol y bartneriaeth Teuluoedd- (atodiad)<br>b. Drafft calendr gweithgareddau Cymraeg i Deuluoedd Môn – (atodiad)<br><br>2<br>"Thank you for the very informative talk today. I am one of the statistics from the Holyhead area who missed out on any Welsh in my education, and I have many friends who are disadvantaged on the job front because of it. It's a very important to me that my children don't miss out on this opportunity and become confident Welsh speakers. I had some worries about my little boy going into school with very little knowledge of Welsh. I try my best to incorporate it at home with the little bits I know, but your presentation reassured me that this is actually the best way for him to learn the new language and that his confidence and skills will develop in the school environment. Thank you for calming my nerves!<br>Lucy"<br><br>3<br>"Diolch am yr holl wybodaeth. Mae'r hyn yr wyt yn nodi sy'n digwydd ym Môn yn grêt ac o fudd i ni ystyried beth sy'n bosib fel rhanbarth. ... Hyn oll rydym yn awyddus i feddwl amdano yn fwy strategol er mwyn bod mwy effeithlon fel rhanbarth, gan ddefnyddio'r arbenigedd sydd eisoes gennym ni fel rhanbarth a'i roi ar |

| | | |
|---|---|---|
| Cynnar / Sylfaen GwE i rannu gwaith Partneriaeth Cymraeg i Deuluoedd Môn.<br><br>4. Ymateb i hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith | | Rhian"<br><br>4 .Sampl ymatebion i ymwybyddiaeth iaith. Yn aml gwahoddwyd ni i ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth o drochi a chodi hyder staff i drafod defnydd o'r Gymraeg gyda rhieni. Ceir weithiau sefyllfaoedd ble mae'r ysgol yn elwa o gael sgwrs am iaith y staff ymysg unigolion o flaen y disgyblion. O ystyried sensitifrwydd y pwnc mae'r ymateb yn gadarnhaol iawn, gyda 75% o'r sampl yma o 4 gweithle yn dweud y byddant yn gwneud defnydd o apiau Selog ag apiau Cymraeg y llywodraeth o hyn ymlaen. |
| | | |

| Thema 2: Cynyddu'r Defnydd o'r Gymraeg | | |
|---|---|---|
| **Targedau (ar ffurf CAMPUS)** | **Cynnydd** | **Targed yn rhedeg ar amser Ydy / Na** |
| **Teuluoedd**<br>Cynnal 15 stondin, a chynnal sgwrs 1:1 gyda 200 o rieni erbyn Mawrth 2019 gyda'r nod o wella gwybodaeth, dealltwriaeth a rhoi cefnogaeth i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y cartref ac yn gymdeithasol<br><br>Erbyn diwedd Chwarter 2:<br>**7** digwyddiad i deuluoedd<br>**62** rhiant<br>**96** o blant | **Chwarter 1**<br>**09.05.2018** - **Ymwybyddiaeth Iaith rhieni Bl 7 Bodedern** - grŵp oedd am fod yn derbyn gwersi trochi am y tro cyntaf yn yr uwchradd felly roedd dealltwriaeth y rhieni o ddwyieithrwydd a manteision siarad Cymraeg yn yr ardal/ar gyfer swyddi yn bwysig. (Rhiant/teulu: 8, tadau:4 , Cymraeg/Saesneg: 1 , Saesneg: 7)<br><br>**12.06.2018 - Ymwybyddiaeth Iaith** i rieni **Llannerch-y-medd.** (Rhiant/teulu: 8, tadau:1 Saesneg: 3)<br><br>**26.06.2018** - **Ymwybyddiaeth Iaith** i rieni **Brynsiencyn**. (Rhiant/teulu: 4, tadau: 1, Saesneg:3) | |
| | **Chwarter 2**<br><br>**09.07.2018 - Ymwybyddiaeth Iaith** rhieni **Rhosneigr**. (Rhiant/teulu: 6, Tadau: 1, Iaith gartref: Cymraeg/Saesneg : 1, Saesneg 4.)<br><br>**13.07.2018** - Selog yn mynychu digwyddiad cymunedol mewn ysgol newydd yn cyfuno 3 ysgol wledig - **Ysgol Rhyd y Llan**. (Plant: 50, Rhiant/teulu: 16, tadau:4 , Iaith gartref: Cymraeg/Saesneg 1, Saesneg 2.) | |

| | | |
|---|---|---|
| | **16.07.2018 - Ymwybyddiaeth Iaith** rhieni **Bryngwran**. (Rhiant/teulu: 7, tadau: 2, Iaith gartref: Cymraeg/Saesneg: 1, Saesneg: 2)<br><br>**27.09.2018 - Ymwybyddiaeth Iaith** & hwyl gydag adnoddau Cymraeg i rieni **Ysgol Parc y Bont**. (Rhieni/teulu:11. Tadau:4, Cym/Saes : 6, Saes: 3)<br><br>**25.09.2018 – Noson Rieni Ysgol Uwchradd Bodedern**<br>Cyfle i gyflwyno holl weithgarwch y Fenter, cyfarch dros 100 o rieni, ond sgwrs ddwys gyda 10. Diddordeb mawr yn y Rhwydwaith Perfformwyr Ifanc.<br>(Rhieni/teulu: 10) | |
| | **Chwarter 3** | |
| | **Chwarter 4** | |
| Hyrwyddo defnydd o apiau Cymraeg gan ddefnyddio Selog fel adnodd.<br>8000 o apiau Selog wedi eu lawr lwytho erbyn Mawrth 2019 a 15 ymweliad a lleoliadau i hyrwyddo<br>Chwarter 1<br>**12** digwyddiad<br>**404** o blant<br>**33** rhiant<br>Chwarter 2<br>**4** digwyddiad<br>**198** o blant<br>**107** o rieni<br><br>**5** o'r digwyddiadau hyn wedi eu trefnu ar gyfer teuluoedd yn benodol. Gweddill = | **Chwarter 1**<br>*(Mae arwyddocâd i'r niferoedd sy'n edrych / ymateb ar y rhwydweithiau cymdeithasol oherwydd mai plant yn aml sy'n gweld Selog ond targedir yr oedolion yn y teulu drwy'r negeseuon ar* ***Facebook*** *a* ***Trydar*** *gan gynnwys linc i Selog ac anogaeth i ddefnyddio'r apiau gyda'u plant adref. Dyma felly sut yr ydym yn mesur derbyn y neges adref yn ogystal â nifer y lawrlwythiadau sydd bellach wedi cyrraedd* ***13,000****)*<br><br>**10/04/2018**<br>1. Ysgol **Y Fali** i hyrwyddo adnodd Selog & Magi Ann (Plant: 30. Trydar – argraffiadau 2164, ymwneud 38, F'book – cyrraedd 1100, Fb – clicio 155, Fb - rhannu/ymateb 9)<br>**12/04/2018**<br>2. Ysgol **Caergeiliog** efo Selog. (Plant: 50. Trydar – argraffiadau 1815, ymwneud 50, F'book – cyrraedd 2100, Fb – clicio 584, Fb - rhannu/ymateb 51)<br><br>**24/04/2018** | |

| | | |
|---|---|---|
| ymweliad Ysgol gan dros gyfryngau cymdeithasol. Nifer o blant a rhieni yn rhain :<br>Plant : **140**<br>Rhiant : **140** | 3. Ysgol **Llanfair**, Selog a Magi i 4 dosbarth (Plant: 120. Trydar – argraffiadau 3590, ymwneud 73, F'book – cyrraedd 3200, Fb – clicio 406, Fb - rhannu/ymateb 51)<br><br>**30/04/2018**<br>4. Ysgol **Llangaffo**, Selog a Magi. (Plant: 28. Trydar – argraffiadau 2067, ymwneud 28)<br><br>**30/04/2018**<br>5. Ysgol **y Tywyn**, Selog. (Plant: 54. Trydar – argraffiadau 1576, ymwneud 32, F'book – cyrraedd 864, Fb – clicio 87, Fb - rhannu/ymateb 6)<br><br>**18/05/2018**<br>6. Ysgol **Rhosneigr** efo Selog. (Plant: 27. Trydar – argraffiadau 1261, ymwneud 30, F'book – cyrraedd 980, Fb – clicio 94, Fb - rhannu/ymateb 14)<br><br>**18/05/2018**<br>7. Dosbarth Derbyn Ysgol **Biwmares**, Selog. (Plant: 12. Trydar – argraffiadau 680, ymwneud 8, F'book – cyrraedd 757, Fb – clicio 51, Fb - rhannu/ymateb 22)<br><br>**18/05/2018**<br>8. Grŵp Ti& Fi Mudiad Meithrin **Biwmares**, efo Selog. (Plant: 11, Teuluoedd 8, Saesneg 4. Trydar – argraffiadau 1271, ymwneud 22, F'book – cyrraedd 1200, Fb – clicio 135, Fb - rhannu/ymateb 22)<br><br>**22/05/2018**<br>9. Ysgol Esceifiog **Pentraeth** hyrwyddo Magi Ann a Selog. (Plant: 30. Trydar – argraffiadau 1653, ymwneud 49, F'book – cyrraedd 2700, Fb – clicio 405, Fb - rhannu/ymateb 57)<br><br>**05/06/2018** | |

| | | |
|---|---|---|
| | 10. Grŵp Ti& Fi Mudiad Meithrin **Llanddaniel**. (Plant: 22, Rhieni 13, Tadau 3, Cym/Saes 1, Saesneg 5. Trydar – argraffiadau 1192, ymwneud 36, F'book – cyrraedd 1200, Fb – clicio 77, Fb - rhannu/ymateb 19)<br><br>**20/06/2018**<br>11. Selog i grŵp rhiant a phlentyn **Rhosneigr**. (Plant: 11, Rhieni 12, Cym/Saes 2, Saesneg 5. Trydar - argraffiadau 528, ymwneud 14, F'book - cyrraedd 1500, Fb - clicio 150, Fb - rhannu/ymateb 25)<br><br>**21/06/2018**<br>12. Cylch Meithrin **Bodedern** gyda Selog. (Plant: 9. Trydar – argraffiadau 1636, ymwneud 42, F'book – cyrraedd 1500, Fb – clicio 276, Fb - rhannu/ymateb 17) | |
| | **Chwarter 2**<br><br>Lawrlwythiadau ap Selog: Hyd yma lawrlwythwyd ap Selog 13,000 o weithiau (7500 ar gyfer y canu a 5500 ar gyfer y llyfrau darllen Cymraeg).<br><br>**9-11/08/18**<br>13. Hyrwyddo Selog yn genedlaethol yn yr **Eisteddfod** - sesiwn stori. (Plant: 24, Rhieni 17. Cymraeg/Saesneg 5, Cymraeg/Almaeneg 1, Saesneg 8, Tadau/6. Trydar – argraffiadau 1333, ymwneud 22, F'book – cyrraedd 1932, Fb – clicio 232, Fb - rhannu/ymateb 25)<br><br>**14-15/08/18**<br>14. Sioe Môn hyrwyddo Selog drwy ymweliad sgwrs a thaflen. (Plant: 72, Rhieni 90. Trydar – argraffiadau 1017, ymwneud 28, F'book – cyrraedd 1000, Fb – clicio 152, Fb - rhannu/ymateb 9)<br><br>**19/9/2018**<br>15. Selog i Ysgol Henblas (Plant:30 . Trydar – argraffiadau1124 , ymwneud 37, | |

CYMRAEG

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

| | | |
|---|---|---|
| | F'book – cyrraedd 1.5k, Fb – clicio 173, Fb - rhannu/ymateb:33)<br><br>**24/9/2018**<br>16. Selog i Ysgol y Borth. 72 o blant. (F'book – cyrraedd 2.2k, Fb – clicio 773, Fb - rhannu/ymateb: 55) | |
| | **Chwarter 3** | |
| | **Chwarter 4** | |
| Ymchwilio i ac adnabod ffynhonnell ariannol er mwyn datblygu ap newydd Selog erbyn Mawrth 2019 | **Chwarter 1** | |
| | **Chwarter 2**<br>**10.08.18** - Sgwrs gychwynnol gyda staff Loteri Genedlaethol i adnabod cryfderau cais datblygu Selog mewn cyd-destun cymunedol. | |
| | **Chwarter 3** | |
| | **Chwarter 4** | |
| Cefnogi strategaeth y Llywodraeth Cymraeg 2050 ynghyd â Strategaeth iaith yr Awdurdod drwy weithio'n ddwys yn ardal Caergybi i wella gwybodaeth a dealltwriaeth am fanteision dwyieithrwydd ymysg rhieni. Dylanwadu ar 100 o rieni erbyn Mawrth 2019.<br><br>Erbyn diwedd Chwarter 2:<br>**14** digwyddiad i deulu<br>**25** rhiant<br>**31** plentyn | **Chwarter 1**<br>**Sesiwn Rhiant & Phlentyn wythnosol Caergybi**<br>Bob dydd Mercher yn ystod y tymor.<br><br>**18/4, 25,4, 2/5, 9/5, 16/5, 23/5, 6/6, 13/6, 20/6, 11/7, 18/7** = 11 sesiwn Cymraeg i riant a phlentyn yn Llyfrgell Caergybi.<br>19 teulu, 20 rhiant (3 tad) a 25 o blant.<br>Iaith gartref: Cym/Saes: 4, Saesneg: 7, Pwyleg: 2, Rwsieg: 1.<br><br>**02.05.2018 -** Uwchsgilio a chodi hyder staff ardal Caergybi. Hyfforddiant cymorthyddion drwy **Ganolfan Bedwyr** - cynrychiolaeth ardal Caergybi. Ymwybyddiaeth Iaith a phwysigrwydd trochi. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **hwarter 2**<br>**03.09.2018 - Ysgol y Fali - Ymwybyddiaeth Iaith** i'r staff gyda ffocws ar gyflwyno i rieni (Staff 12, C/S: 5, S:4)<br><br>**12.09.2018 - Sesiwn Rhiant & Phlentyn wythnosol Caergybi yn ail ddechrau.**<br>**+ 19/9 26/9**<br>Cofnod rhieni newydd : 6 rhiant newydd, 6 plentyn, Iaith gartref : Cym/Saes: 1, Saes:5) | |
| | **Chwarter 3** | |
| | **Chwarter 4** | |
| Cynnal 15 o weithgareddau cymdeithasol i 450 o rieni/gofalwyr er mwyn codi ymwybyddiaeth am gyfleoedd cymdeithasol Cymraeg, a'r gefnogaeth sydd ar gael erbyn Mawrth 2019.<br>50 i fod yn ddynion (tadau/gwarchodwyr/partneriaid etc).<br><br>Erbyn diwedd Chwarter 2:<br>**7** gweithgaredd<br>**187** Teulu<br>**353** o blant | **Chwarter 1**<br>**07/04/2018**<br>1. **Bore Hwyl Ioga** i deuluoedd & athletau Porthaethwy (teulu: 12, plant: 13).<br><br>**09/05/2018**<br>2. **Ymwybyddiaeth iaith Gymunedol** - Santes Fair (teulu: 8, Saesneg:4, Tadau/teidiau 2)<br><br>**09/06/2018**<br>3. **Bore o Hwyl i'r Teulu - Gŵyl Cefni**<br>Sioe S4C i blant ar y llwyfan mawr (Plant: 280, Teulu: 140)<br><br>**23/06/2018**<br>4. **Bore Hwyl Rownderi gyda'r Urdd**, a chanu Cymraeg a chrefftau. Porthaethwy (plant: 14, teulu: 10). | |
| | **Chwarter 2**<br><br>**14/07/2018**<br>5. **Bore Hwyl Cymraeg Cyfeiriannu**, crefftau & pêl droed Urdd @ **Porthaethwy** | |

| | |
|---|---|
| | (Plant: 13, teulu: 10)<br><br>**28/07/2018**<br>6. **Sesiwn Stori & Chân** gyda Selog @ **Ffair Mechell** ar y cyd â Cymraeg i Blant. (plant 17, teuluoedd 7)<br><br>**22/9/2018**<br>7. Bore Hwyl Cymraeg gyda'r Urdd @ **Porthaethwy** (plant: 16, teulu: 14) |
| | **Chwarter 3** |
| | **Chwarter 4** |

| Dangosyddion Teuluoedd | Targed (Nifer y cytunwyd) | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Cyfanswm cyflawniad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer o weithgareddau a drefnir i deuluoedd | 55 | | Ch1&2 **33** | | | 33 |
| Nifer o blant sy'n mynychu gweithgareddau i'r teulu | 300 | | Ch1&2 **620** | | | 620 |
| Nifer o rieni sy'n mynychu gweithgareddau i'r teulu | 750 | | Ch1&2 **414** | | | 414 |

| **Pa dystiolaeth ychwanegol sydd gennych o ganlyniad i waith gwerthuso'r gweithgareddau/prosiectau a wnaed gennych e.e. astudiaethau achos, canlyniadau holiaduron ayyb.** ***Os yn cyflwyno tystiolaeth fel atodiadau, nodwch eu teitlau isod).*** | | |
|---|---|---|
| **Tystiolaeth** | **√** | **Manylion** |
| **Astudiaethau Achos** | | |
| **Holiaduron** | | |
| **Arall** | | |

| Thema 2: Cynyddu : | | |
|---|---|---|
| **Targedau (ar ffurf CAMPUS)** | **Cynnydd** | **Targed yn rhedeg ar amser Ydy / Na** |
| **Plant a Phobl Ifanc**<br>**Cynradd (4-8oed)** | | |
| 110 o blant a phobl ifanc yn mynychu darpariaeth Theatr Ieuenctid Môn bob tymor (7-18oed).<br><br>Cyfanswm Chwarter 1 a Chwarter 2:<br><br>Nifer Gweithgaredd : **84**<br><br>Nifer aelodaeth TIM : **116**<br>Nifer Gweithgaredd eraill : **166**<br>**Cyfanswm mynychu : 282** | **Chwarter 1**<br>Gweithdai perfformio a chodi hyder i blant 7 - 18oed yn cael eu cynnal gan actorion, cantorion ac ymarferwyr proffesiynol. Gweithdai yn digwydd yn naturiol drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda newid agwedd amlwg tuag at y Gymraeg mewn byd perfformio yn yr holl sesiynau.<br><br>Byddwn yn casglu Astudiaethau Achos yn **Chwarter 3.**<br><br>**TIM Bach (7-11oed)**<br><br>TIM Bach Amlwch – **Bob nos Lun** : Nifer : **13**<br>TIM Bach Llangefni – **Bob nos Fawrth** : Nifer: **30**<br>TIM Bach y Borth – **Bob nos Fercher** : Nifer: **33**<br>TIM Bach Caergybi – **Bob nos Iau** : Nifer : **20**<br><br>Sesiynau Recriwtio yn **Llannerch-y-Medd** a **Rhosybol** wedi eu trefnu ar gyfer codi niferoedd **Amlwch**.<br><br>**Yn ychwanegol i'r rhaglen waith arferol yn Chwarter 1 :** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **10.4.18 – Sesiwn Flasu Agored** yn **Ysgol Gymuned y Fali.** Nifer **: 55**<br>**10.6.18 -** Sioe **Theatr Pop-Up** yng Ngŵyl Cefni i **TIM Bach Llangefni**<br>**28** yn perfformio, cynulleidfa o **80**<br><br>Cyfanswm Aelodaeth Tymor **TIM Bach** : **96**<br><br>**TIM Mawr – (i bobl ifanc 11 – 18 oed)**<br>**Bob nos Fercher** yn Neuadd y Dref, Llangefni.<br>Aelodaeth TIM Mawr : **20**<br><br>**Cyfanswm Aelodaeth TIM Bach a Mawr dros y Tymor : 116**<br><br>Cyfanswm sesiynau Chwarter 1 : 15 sesiwn (wythnosol) x 4 (Amlch/Cgybi/Llngfi/Borth/Mawr) = **55 sesiwn**<br><br>**Yn ychwanegol i'r rhaglen waith arferol TIM Mawr :**<br>**2.5.18 – Gweithdy Technegol** gyda **Theatr Genedlaethol Cymru**<br>**3.5.18** - Trip i wylio **Estron**, drama **Theatr Genedlaethol Cymru** | |
| | **Chwarter 2**<br>Cyfanswm Aelodaeth TIM Bach a Mawr dros y Tymor : **122**<br>Cyfanswm sesiynau TIM Chwarter 2: **20 sesiwn**<br><br>Yn ychwanegol i'r rhaglen waith arferol Chwarter 2:<br>**16.7.18** - Sioe Diwedd Tymor TIM Bach Amlwch : **13** yn perfformio a chynulleidfa o **70**.<br>**18.7.18** - **Gweithdy ffilmio i TIM Mawr** gyda **Dewi Fôn Evans**, cyfle i ffilmio'r gwaith sydd wedi ei greu dros y tymor diwethaf a dysgu sgiliau ffilm. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **2.9.18** - Sesiwn Flasu yng **Nghaergybi** Nifer : **63**<br>**14.9.18** – Sesiwn Flasu yn **Rhosneigr** Nifer **: 15**<br>**24.9.18** – Sesiwn Flasu ym **Mhorthaethwy** Nifer: **33** | |
| | **Chwarter 3** | |
| | **Chwarter 4** | |
| 50% o'r rhai sydd yn mynychu gweithgareddau yn nodi eu bod nhw yn siarad Cymraeg efo'u ffrindiau Cymraeg yn sgil mynychu'r prosiect erbyn Mawrth 2019 | **Chwarter 1**<br><br>**Cyfartaledd TIM Bach: 7 – 11oed**<br>**90%** yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg gyda'u ffrindiau yn gymdeithasol yn sgil TIM<br>**95%** yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd yn narpariaeth TIM *<br>**100**% wedi codi mewn hyder yn defnyddio'r Gymraeg ar lwyfan / cyfleodd perfformio<br>**100**% wedi dysgu sgiliau perfformio newydd<br>**100**% wedi gwneud ffrindiau newydd<br><br>*Mae'n bwysig nodi fod TIM yn weithgaredd **cymunedol** sy'n uno plant o ysgolion cynradd dalgylchoedd lleol, mae'r cyfarfod cyntaf drwy gyfrwng y Gymraeg ac felly mae'r duedd yn aros felly wrth iddynt gyfarfod tu allan i ffiniau TIM.<br><br>**Merch yn TIM Bach Amlwch yn mynychu Ysgol Breifat a rhieni di-Gymraeg adref, ond yn perfformio'r hyderus ar lwyfan yn y Gymraeg yn sgil TIM.<br><br>**Cyfartaledd TIM Mawr: 11 – 18oed**<br>**98%** yn siarad Cymraeg gyda'u ffrindiau Cymraeg yn sgil TIM<br>**98%** yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd yn narpariaeth TIM.<br>**95**% wedi codi mewn hyder yn defnyddio'r Gymraeg ar lwyfan / cyfleodd perfformio<br>**100**% wedi dysgu sgiliau perfformio newydd<br>**100**% wedi gwneud ffrindiau newydd | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | **Chwarter 2**<br><br>Adborth / Astudiaethau Achos yn **Chwarter 3** | |
| | **Chwarter 3** | |
| | **Chwarter 4** | |
| 100% o'r rhai sydd yn mynychu yn nodi fod y Gymraeg yn bwysig iddyn nhw erbyn Mawrth 2019 | **Chwarter 1**<br>Adborth yn cael ei gasglu drwy weithgaredd 'post-its' – **100**% yn nodi fod y Gymraeg yn bwysig iddyn nhw. | |
| | **Chwarter 2** | |
| | **Chwarter 3** | |
| | **Chwarter 4** | |
| 70% yn fwy hyderus i berfformio yn y Gymraeg o flaen cynulleidfaoedd amrywiol erbyn Mawrth 2019 | **Chwarter 1**<br>**100**% wedi codi mewn hyder yn defnyddio'r Gymraeg ar lwyfan / cyfleodd perfformio – **TIM Bach**<br>**95**% wedi codi mewn hyder yn defnyddio'r Gymraeg ar lwyfan / cyfleodd perfformio – **TIM Mawr** | |
| | **Chwarter 2** | |
| | **Chwarter 3** | |
| | **Chwarter 4** | |

**Thema 2: Cynyddu'r Defnydd o'r Gymraeg**

| Targedau (ar ffurf C ynnydd | | Targed yn rhedeg ar amser Ydy / Na |
|---|---|---|
| **Plant a Phobl Ifanc**<br>**Cyfnod pontio (9-12)** | | |
| 125 o blant a phobl ifanc yn mynychu darpariaeth Bocsŵn (5-16 oed) a Rhwydwaith Perfformwyr Ifanc (12-18 oed)<br><br>Cyfanswm Chwarter 1 a Chwarter 2:<br><br>Nifer Gweithgaredd : **97**<br>Nifer mynychu : **295** | **Chwarter 1**<br><br>**Cynllun 1**<br>**Stiwdio 12, Llangefni** gyda **Pecyn 25, Cyngor Sir Ynys Môn**<br>**Pobl Ifanc : 15 – 18 oed**<br>11/4/18<br>18/4/18<br>25/4/18<br>2/5/18<br>9/5/18<br>16/5/18<br><br>Prosiect ar y cyd â Cyngor Sir Ynys Môn gyda phobl ifanc sy'n cael trafferth ymgysylltu mewn amgylchedd addysgol. Daeth criw o 5 o bobl ifanc i Stiwdio 12, Llangefni i weithio ar brosiect oedd yn cyfuno sawl elfen gerddorol, dysgu, cyfansoddi, recordio a chreu cerddoriaeth gan ddefnyddio offer technegol.<br><br>Cafwyd cydnabyddiaeth i'r gwaith drwy achrediad Agored Cymru.<br><br>Dyma ganlyniad o fesur effaith ar ddechrau a diwedd y cynllun ar ffurf holiadur, ar ran hyder a defnydd o'r Gymraeg.<br>• Cynnydd o 36% mewn hyder o weithio gyda phobl newydd.<br>• Cynnydd o 5% yn siarad Cymraeg gyda gwarchodwyr. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Cynnydd o 50% mewn cymryd rhan mewn gweithgaredd Cymraeg tu allan i'r Ysgol.<br>• Cynnydd o 43% mewn hyder wrth weithio yn y Gymraeg e.e. darllen, ysgrifennu, cyfathrebu.<br>• Cynnydd o 32% mewn hyder wrth siarad Cymraeg<br>• Cynnydd o 6% mewn pwysigrwydd y Gymraeg i'r unigolyn.<br>Nifer : **5**<br><br>**Cynllun 2**<br>**Canolfan Bro Alaw, Bodedern** gyda **Gwasanaeth Ieuenctid, Cyngor Sir Ynys Môn**<br>9/4/18<br>16/4/18<br>23/4/18<br>30/4/18<br>14/5/18<br>21/5/18<br><br>Ffurfio band gyda 6 o bobl ifanc, yn dilyn sesiwn blasu ym Modedern, cyfle anffurfiol i ddefnyddio'u Cymraeg yn greadigol mewn proses o gyfansoddi, ysgrifennu a recordio cân.<br><br>Cafwyd cydnabyddiaeth i'r gwaith drwy achrediad 'Sgiliau Rhythm' Agored Cymru.<br><br>Dyma ganlyniad o fesur effaith ar ddechrau a diwedd y cynllun ar ffurf holiadur, ar ran hyder a defnydd o'r Gymraeg.<br>• Cynnydd o 3% mewn hyder i drio pethau newydd.<br>• Cynnydd o 6% i rannu syniadau newydd.<br>• Cynnydd o 11% mewn hyder i weithio gyda phobl eraill.<br>• Cynnydd yn siarad Cymraeg gyda ffrindiau 83%<br>• 44% o gynnydd mewn gweithgaredd ôl-Ysgol Cymraeg | |

- 6% o gynnydd mewn gweithio yn y Gymraeg hynny yw, darllen, sgwennu, cyfathrebu.
- Cynnydd o 16% mewn hyder i siarad Cymraeg.
- Cynnydd o 57% mewn gwrando/gwylio ar gerddoriaeth/rhaglenni Cymraeg.

Nifer : **6**

**Cynllun 3**
**Cynllun Ysgol Llanfawr, Caergybi**

Sesiynau cefnogi Siarter Iaith Ysgol Llanfawr, Caergybi.
Pob prynhawn dydd Iau am 6 wythnos.

19/4/18
26/4/18
3/5/18
10/5/18
17/5/18
24/5/18

8 unigolyn yn cael eu dewis gan yr Ysgol i wella llythrennedd, rhifedd a sgiliau creadigol drwy gyfrwng y Gymraeg + cyfle anffurfiol i ddefnyddio'u Cymraeg.

Syniad wedi datblygu o'r sesiynau = Cyfres o fideos tiwtorial Bocsŵn ar gyfer cyfryngau cymdeithasol. Elfennau o ddysgu iaith + sgil newydd. I'w ddatblygu yn **Chwarter 3.**

Dyma ganlyniad o fesur effaith ar ddechrau a diwedd y cynllun ar ffurf holiadur, ar ran hyder a defnydd o'r Gymraeg.

- Cynnydd yn siarad Cymraeg gyda ffrindiau 23%
- Cynnydd o 3% mewn siarad Cymraeg gyda rhieni / gwarchodwyr.

| | | |
|---|---|---|
| | • 150% o gynnydd mewn gweithgaredd ôl-Ysgol Cymraeg<br>• 76% o gynnydd mewn gweithio yn y Gymraeg hynny yw, darllen, sgwennu, cyfathrebu.<br>• Cynnydd o 16% mewn hyder i siarad Cymraeg.<br><br>Nifer : **8**<br><br>**Cynllun 4**<br>**Sesiynau i'r Gymuned @ Neuadd Ysgol Gynradd Llandegfan**<br>4/6/18<br>11/6/18<br>18/6/18<br>25/6/18<br>I'w barhau mewn i Chwarter 2.<br><br>**Cynllun 5**<br>**Bocsŵn a Digartref Ynys Môn**<br>24/04/18<br>13/06/18<br>27/06/18<br><br>Prosiect wedi ei drefnu ar y cyd ag elusen Digartref Ynys Môn.  3 gweithdy dysgu chwarae, cyfansoddi a recordio gyda'r ukulele i bobl ifanc o dan ofal Digartref Ynys Môn.<br>**100% wedi dysgu sgiliau newydd**<br>**100% wedi magu hyder yn defnyddio'r Gymraeg mewn awyrgylch anffurfiol**<br><br>Nifer = **4**<br><br>**Cynllun 6**<br>**Rhwydwaith Perfformwyr Ifanc** | |

| | | |
|---|---|---|
| | ob Nos Fawrth (4.30pm – 8pm) – **12 sesiwn**<br><br>**Cyfarfodydd wythnosol i gefnogi rhwydwaith o berfformwyr ifanc a threfnu gigs lleol + cefnogi bandiau'r rhwydwaith mewn perfformiadau amrywiol ledled Cymru.**<br><br>**'Carma' - Band Roc (4 perfformiwr)**<br><br>**7.8.2018** - Llwyfan y Maes, Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.<br>**14.07.18** - Gŵyl Arall, Caernarfon<br>**28.07.18** – Gŵyl Rhosneigr<br><br>**Jac Elis Roberts**<br>Aelod newydd i'r Rhwydwaith. Mae'r rhwydwaith yn gymorth i Jac wrth iddo gyfansoddi a chreu caneuon gwreiddiol, dwy gan wreiddiol Gymraeg wedi ei recordio yn Stiwdio 12, Llangefni.<br>Anogwyd i berfformio mewn noson Meic-Agored yn yr Oyster Catcher yn Rhosneigr, ac ar sail hynny wedi cytuno i nifer o gigs dros yr Haf.<br><br>**A(n)naearol – (4 perfformiwr)**<br>**28.7.18 – Gŵyl Mechell, Llanfechell.**<br>Cyfnod prysur yn ymarfer, ysgrifennu a recordio caneuon newydd dros y cyfnod hwn yn bennaf.<br><br>**Nifer : 9**<br><br>**Mae'r holl ganeuon i'w clywed ar dudalen Soundcloud Bocsŵn**<br>**https://soundcloud.com/bocswn** | |
| | **Chwarter 2** | |

| | | |
|---|---|---|
| | ynllun 4 (parhau)<br>**Sesiynau i'r Gymuned @ Neuadd Ysgol Gynradd Llandegfan**<br><br>02/07/18<br>09/07/18<br><br>Sesiynau agored i blant dalgylch Llandegfan/Llangoed/Biwmares, creu band gyda **6 unigolyn.**<br><br>Dyma ganlyniad o fesur effaith ar ddechrau a diwedd y cynllun ar ffurf holiadur, ar ran hyder a defnydd o'r Gymraeg.<br><br>• Cynnydd o 23% mewn siarad Cymraeg efo'n ffrindiau.<br>• Cynnydd o 16% yn siarad Cymraeg efo rhieni/gwarchodwyr.<br>• Cynnydd o 56% mewn gweithgareddau Cymraeg tu allan i'r Ysgol.<br>• Cynnydd o 3% mewn hyder yn gweithio yn y Gymraeg, hynny yw, darllen, ysgrifennu, cyfathrebu.<br>• Cynnydd o 3% mewn hyder yn siarad Cymraeg.<br>• Cynnydd o 18% mewn pwysigrwydd siarad y Gymraeg.<br>• Cynnydd o 29% mewn gwrando ar gerddoriaeth a/neu wylio rhaglenni Cymraeg.<br><br>Nifer : **6**<br><br>**Cynllun 6 (parhau)**<br>**Rhwydwaith Perfformwyr Ifanc**<br>Bob Nos Fawrth (4.30pm – 8pm) **(4 sesiwn)**<br><br>Band Newydd i'r Rhwydwaith ar ôl recriwtio dros yr Haf.<br><br>Aerobig – band roc meddal. 4 unigolyn. | |

**Cyfanswm niferoedd Rhwydwaith: 13**

**Cynllun 7**

**Sesiynau Haf Bocsŵn**

Cynhaliwyd sesiynau cymunedol dros yr Haf yn Stiwdio 12, Llangefni. Boreau a prynhawn wedi eu teilwra ar gyfer oedrannau amrywiol, rhwng 5 - 18 oed.

**Rhaglen 4 wythnos o weithdai Ukulele a Creu Band**
**: 30.7.18 – 23.8.18**

Sesiwn Bore am bythefnos, sesiwn bore a phnawn am bythefnos -
Cyfanswm gweithdai : **24**

**Nifer : 40 o blant**

**Sesiynau Ysgol Bocsŵn**

Gwasanaeth drwy unigolion llawrydd, yn cael ei gydlynu gan Swyddog Maes Cerddorol.
**Sesiynau ar gyfer Ysgolion Uwchradd a Cynradd ar gyflwyno'r Gymraeg mewn modd creadigol, modern, gydag elfennau o ddysgu iaith drwy weithgaredd.**

**Medi 2018 +**
**Rhaglen 6 wythnos @**

Ysgol Goronwy Owen **: 80**
Ysgol Biwmares **: 19**
Ysgol Gymuned y Fali **: 50**
Ysgol Rhosneigr : **24 (clwb ar ôl Ysgol)**
Ysgol Moelfre **: 40**

Cyfanswm sesiynau : **30**

| | | |
|---|---|---|
| | yfanswm plant : **213** | |
| | **Chwarter 3** | |
| | **Chwarter 4** | |
| Gweithgareddau Cymdeithasol yn - Codi ymwybyddiaeth a defnydd/gwrando 100% am gerddoriaeth Gymraeg, technolegau Cymraeg ac adnoddau Cymraeg y gellir eu defnyddio o ddydd i ddydd erbyn Mawrth 2019<br><br>Cyfanswm Chwarter 1 a Chwarter 2:<br><br>Nifer Gweithgaredd : **4**<br>Nifer mynychu : **464** | **Chwarter 1**<br><br>**10.06.2018 - Gŵyl Cefni - Y Gig Fawreddog**<br>Profiad cerddorol newydd i gynulleidfa o 400. Cynhaliwyd y gig fawreddog yng nghanol tref Llangefni eleni gyda Celt, Fleur de Lys, Bwncath, Alejandro Jones o Batagonia, Welsh Whisperer, Daf Jones, Tagaradr, Hogia Llanbobman, Gwilym Bowen Rhys, Theatr Ieuenctid Môn a Bocsŵn.<br>Nifer: **400**<br>**40% yn bobl ifanc : 160**<br><br>**18.9.18** – Clwb Ukulele @ Ysgol Rhosneigr (ar ôl Ysgol) Nifer: **24** | |
| | **Chwarter 2**<br><br>**04.07.2018**<br>**Ras yr Iaith (450 i gyd)**<br>250 yn y cyfnod pontio (9-12 oed)<br><br>Cynhaliwyd **Ras yr Iaith** ym Mhorthaethwy am y tro cyntaf eleni. Rhedodd 450 o bobl yn y ras, yn cynnwys plant a phobl ifanc yn bennaf. Cafwyd y nifer uchaf dros Gymru yn rhedeg yn ein cymal a hynny'n bennaf oherwydd ein hygrededd gyda'r Ysgolion yn lleol.<br><br>Cafodd y plant a'r bobol ifanc ddathliad o iaith a diwylliant, ymwybyddiaeth o gerddoriaeth Cymraeg a chyfle i gymdeithasu gyda phlant a phobl ifanc o bob oed wedi'r ras. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cafwyd adborth cadarnhaol iawn ar ffurf sgyrsiau gyda Phrif Athrawon yn dilyn y digwyddiad, ac edrychwn at adeiladu ar lwyddiannau'r flwyddyn gyntaf a pharatoi rhaglen o weithgareddau yn rhan o'r dathliadau yn 2020.<br><br>**13.07.2018 -** Digwyddiad cymunedol **'Madam Wen'** ym mhentref **Bryngwran**. Cefnogi ymdrechion yr Ysgol wrth gefnogi'r digwyddiad wrth estyn allan i'r gymuned ehangach – dysgu can am hanes lleol y Madam Wen, canu'r gerddoriaeth wrth ymweld â busnesau'r dref. **30 o ddisgyblion**<br>Trydar – argraffiadau 2133, ymwneud 92. Fbook – cyrraedd 3,000, clicio 700, rhannu/ymateb 68). | |
| | **Chwarter 3** | |
| | **Chwarter 4** | |
| Yn ystod gweithgareddau cymdeithasol - 50% o'r rhai sydd yn mynychu gweithgareddau yn nodi eu bod nhw yn siarad mwy o Gymraeg efo'u ffrindiau yn sgil mynychu'r prosiect erbyn Mawrth 2019 | **Chwarter 1**<br>**Cynllun 2 (Uchod)**<br>**Canolfan Bro Alaw, Bodedern** gyda **Gwasanaeth Ieuenctid, Cyngor Sir Ynys Môn**<br>Dengys cynnydd o 83% o bobl ifanc yn defnyddio mwy o Gymraeg efo'u ffrindiau.<br><br>**Cynllun 3 (Uchod)**<br>**Cynllun Ysgol Llanfawr, Caergybi.**<br>Dengys gynnydd o 23% o blant yn defnyddio mwy o Gymraeg efo'u ffrindiau. | |
| | **Chwarter 2**<br><br>**Cynllun 4 (Uchod)**<br>**Sesiynau i'r Gymuned @ Neuadd Ysgol Gynradd Llandegfan.**<br>Dengys gynnydd o 23% o blant yn defnyddio mwy o Gymraeg efo'r ffrindiau. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **ynllun 5 (Uchod)**<br>**Sesiynau i'r Gymuned @ Canolfan Gymunedol Gwelfor, Caergybi.**<br>Dengys gynnydd o 38% o blant yn defnyddio mwy o Gymraeg efo'r ffrindiau. | |
| | **Chwarter 3** | |
| | **Chwarter 4** | |
